


**Annwyl gyfaill**

Gweler isod y wybodaeth ddiweddaraf am waith Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru.

## Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig

Diolch i bawb a ymatebodd i Gam 1 ein hymchwiliad i lefel ac ansawdd y cymorth ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig.

Y neges glir o’r ymatebion oedd yr angen i wella gofal cyfannol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, a rhoi’r gorau i ganolbwyntio ar achosion unigol yn ynysig.

Yn seiliedig ar hyn, rydym wedi cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer Cam 2, a byddwn yn dechrau clywed rhagor o dystiolaeth yn y flwyddyn newydd, gan gynnwys:

- ymgysylltu yn uniongyrchol â phobl â chyflyrau cronig,
- cyfarfodydd grwpiau ffocws rhanddeiliaid gyda sefydliadau sy'n cynrychioli amrywiaeth o gyflyrau cronig, a
- rhai sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol.

Mae'r holl fanylion i’w gweld ar ein gwefan.

## Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol

Rydym yn edrych ar effaith ac effeithiolrwydd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gyfrifo a chynnal lefelau priodol o staff nyrsio ar wardiau meddygol acíwt i oedolion a wardiau llawfeddygol mewn ysbytai, yn ogystal â wardiau pediatreg.

Fel rhan o hyn, rydym wedi bod yn clywed tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid, a chan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Nyrsio.

Byddwn yn paratoi ein hadroddiad drafft dros y toriad ac yn ei ystyried yn y flwyddyn newydd.

Gallwch ddilyn ein gwaith ar wefan yr ymchwiliad.

## Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 3 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Hydref 2023, a phasiwyd y Bil gan y Senedd ar 14 Tachwedd.

Mae'r Bil yn aros am Gydsyniad Brenhinol, sydd wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn newydd.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil a'r broses ddeddfwriaethol ar gael ar wefan y Senedd.

## Canserau gynaecolegol

Ar 6 Rhagfyr 2023, cyhoeddwyd ein hadroddiad; 'Heb glywed: Taith menywod drwy ganser gynaecolegol gynaecolegol' a dogfen grynodeb.

Mae'n gwneud 26 o argymhellion ar gyfer y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran gwelliannau i'r gwasanaethau sydd ar gael i fenywod.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Tenovus Cancer Care i sicrhau bod lleisiau menywod wrth galon yr ymchwiliad. Mae ein tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wedi recordio cyfres o gyfweliadau fideo i roi cyfle i fenywod rannu eu profiadau. Gallwch ddarllen am eu profiadau a gwylio'r fideos perthnasol ar flog y Senedd.

Hoffem nodi eto ein diolch i bawb a gymerodd ran yn ein hymchwiliad ac a rannodd eu straeon gyda ni.

Disgwyliwn ymateb gan y Gweinidog ddechrau mis Chwefror.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Fel rhan o'n briff gwylio parhaus o'r ymyriad mesurau arbennig, gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth gyda Chadeirydd interim a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar 23 Tachwedd 2023.

Os gwnaethoch ei golli, gallwch wylio'r sesiwn eto.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar y mater hwn ar gael ar ein gwefan.

## Modelau gofal iechyd a gofal cymdeithasol Ewropeaidd

Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth untro ar 21 Medi gydag arbenigwyr yn y maes hwn. Cawsom drafodaeth eang a soniodd am:

- y gwahaniaethau allweddol a’r tebygrwydd rhwng modelau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, y DU a ledled Ewrop
- dulliau gweithredu o ran gofal hirdymor, gan gynnwys integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a
- chynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Gallwch wylio y sesiwn eto ar ein gwefan.

## Gwaith craffu cyffredinol gyda’r Gweinidogion sy’n gyfrifol am iechyd a gofal Cymdeithasol

Ar 8 Tachwedd, cynhaliwyd sesiwn graffu gyffredinol gennym gyda’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a’r dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.
Gwnaethom ymdrin ag amrywiaeth o feysydd gan gynnwys:

- y pwysau ariannol y mae byrddau iechyd yng Nghymru yn eu hwynebu,
- heriau i’r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol,
- darparu gwasanaethau iechyd meddwl, ac
- amseroedd aros yn y GIG.

Gallwch wylio y sesiwn eto, neu darllenwch llythyr dilynol at y Gweinidog.

## Llythrennedd iechyd

Y llynedd, cyhoeddwyd Maes o Ddiddordeb Ymchwil (ARI) gennym ar lythrennedd iechyd.

Mae llythrennedd iechyd yn ymwneud â gallu unigolyn i ddod o hyd i wybodaeth iechyd, ei deall a gweithredu arni, i wybod pa wasanaethau iechyd i'w defnyddio, pryd i'w defnyddio, ac i fod yn bartneriaid gweithredol yn eu gofal. Dyma hefyd sut mae sefydliadau perthnasol yn diwallu'r anghenion hynny, ac yn galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau iechyd, i'w deall a'u defnyddio.

Rydym bellach wedi ystyried adroddiad a luniwyd ar ein cyfer gan Dr Emily Marchant a'r Athro Tom Crick o Brifysgol Abertawe. Bydd yr adroddiad yn cyfrannu at ein trafodaethau ar ein blaenraglen waith.

Gallwch ddarllen yr adroddiad, ac erthygl ymchwil sy'n cyd-fynd ag ef, a luniwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd, ar ein gwefan.

## Gwaith arall y Pwyllgor

Disgwylir i'r canlynol gael ei gynnwys yn ein gwaith yn ystod tymor y gwanwyn:

- Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol i graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25
- Gwrandawiadau cyn penodi gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer swyddi Cadeiryddion gwahanol fyrddau iechyd
- Casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i gyflyrau cronig

Gallwch ddod o hyd i fanylion am waith y Pwyllgor hyd yn hyn – ynghyd â'i flaenraglen waith – ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor drwy ein dilyn ar Twitter yn @seneddiechyd.

Rydych yn cael yr e-bost hwn gan eich bod wedi gofyn yn flaenorol am gael gwybod am ymchwiliadau newydd y Pwyllgor.

Os nad ydych am gael yr hysbysiadau hyn mwyach, rhowch wybod inni drwy anfon neges at: SeneddIechyd@senedd.cymru